


Torri Ã¢ Laser ac Argraffu 3D



Yn gwyno

Ydych chi am greu fersiwn o'ch hoff gêm fwrdd a wnaethpwyd â llaw? Ydych chi am greu byrddau unigryw a darnau chwarae ar gyfer dyluniad eich hun o gêm fwrdd ? Efallai eich bod am greu tir sy'n edrych yn broffesiynol ar gyfer eich brwydrau pen bwrdd. Dyma'r cwrs i chi!

Yn y cwrs saernïo digidol hwn byddwn yn mynd dros hanfodion Modelu 3D, Argraffu 3D a thorri Laser. Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i ddechreuwyr gael dealltwriaeth o sut i brototeipio syniadau ar gyfer gemau pen bwrdd. Bydd y cwrs yn canolbwyntio ar feithrin sgiliau a hyder gan ddefnyddio ystod o argraffwyr 3D, meddalwedd modelu, torwyr Laser a meddalwedd ddylunio sy'n eich galluogi i gael y gorau o'ch argraffydd 3D a'ch torrwr Laser fel hobi neu ar gyfer busnes.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... unrhyw un sydd am ddysgu am argraffu 3D a thorri laser ar gyfer hobiau, fel gwneud modelau a gemau pen bwrdd i greffttau, dylunio cynnyrch a pheirianeg.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cynnwys y cwrs

Byddwch yn ymdrin â:

Dylunio eich modelau 3D eich hun yn Autodesk Maya a Blender

Dylunio eich byrddau gemau eich hun a defnyddio torrwr laser i dorri nhw ar ddalennau o bren haenog neu rai acrylig

Meistroli gosodiadau meddalwedd "sleisio" priodol ar gyfer y canlyniadau printio gorau

Sefydlu eich argraffydd ar gyfer adlyniad haen gyntaf da

Dod o hyd i ffeiliau parod am ddim i'w lawrlwytho a'u hargraffu eich hun

Cael argymhellion ar ba argraffydd a meddalwedd "sleisio" i ddechrau gyda

Creu graffeg fector a chanllawiau torri ar gyfer ystod o ddeunyddiau dalen wastad

Bydd y cwrs hwn yn mynd â chi ar daith trwy'r broses o brototeipio gêm pen bwrdd gyfan - o ddylunio eich modelau 3D eich hun ar feddalwedd ddylunio 3D, i wedyn eu paratoi i'w hargraffu yn y feddalwedd "sleisio", ac yn olaf argraffu darnau neu ffigurau'r gemau. Bydd y cwrs hwn yn dangos i chi gam wrth gam o'r dechrau i'r diwedd sut mae'r broses argraffu 3D gyfan yn gweithio. Gall edrych yn llethol, ond mewn gwirionedd mae'n anhygoel o syml ac yn hawdd i'w wneud.

Bydd angen i chi fod yn bresennol yn rheolaidd ac yn frwdfrydig dros y pwnc.

Gofynion Mynediad

Bydd gofyn i chi feddu ar wybodaeth sylfaenol am ddefnyddio cyfrifiadur personol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r Ysgol Celfyddydau Creadigol yn cynnig casgliad o gyrsiau gydol y flwyddyn.

Y cyrsiau rydym yn eu cynnig ar hyn o bryd yw:

Tecstilau

Cerameg

Gwneud Printiau

Ffotograffiaeth

Argraffu 3D

Ymarfer Llesiant Creadigol a'r Celfyddydau

Sgiliau DJ gan ddefnyddio Ableton Live



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Y Celfyddydau Perfformio
Canu ar gyfer Pleser
Ysgrifennu Creadigol
Uwchgylchu Dodrefn a Chrefft
Gwneud Gemwaith
Lluniadu Digidol gan ddefnyddio Procreate
Lansio Menter/Busnes Creadigol

Ar ôl i'r cwrs hwn bydd llwybr dilyniant i chi gofrestru ar y cwrs saernïo digidol Uwch.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

